**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

**Dyddiad y penderfyniad:**

21 Rhagfyr 2020

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

21 Rhagfyr 2020

**Penderfyniad:**

ADEILADAU'R FRENHINES, Y RHYL.

Cymeradwyo contract dymchwel Adeiladau'r Frenhines, y Rhyl.

**Bwriad y penderfyniad:**

Bod yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn cymeradwyo dyfarnu'r contract i Wye Valley Demolition yn unol â'r Adroddiad Argymhelliad Dyfarniad Contract.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Mae gofyn am benderfyniad dirprwyol i alluogi dyfarnu'r contract i Wye Valley Demolition i ddymchwel a chael gwared ar asbestos ym mhrosiect Adeiladau'r Frenhines y Rhyl.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Briffio'r Cabinet – sawl diweddariad wedi'i roi i Friffio'r Cabinet, yn cynnwys 7 Medi 2020.

Grŵp Rheoli Asedau – Cymeradwyo adroddiad i fwrw ati gyda'r cytundeb amodol i brynu'r safle fesul cam.

Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl – Cefnogwyr y dull a fabwysiadwyd gan y Cyngor o ran caffael yr eiddo 19 Mawrth 2018. Cafwyd rhagor o gefnogaeth yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/10/2018 ac 08/04/2019. Cynhaliwyd cyfarfod

| |
|---|
| WebEx arbennig 23 Mehefin a 6 Gorffennaf, i ddiweddaru'r Grŵp Ardal Aelodau ar y cynigion diweddaraf, gwaith dymchwel ac amserlenni, ynghyd â chyfarfod Grŵp Ardal Aelodau arall ym mis Medi.<br><br>Grŵp Buddsoddi Strategol – Ymgynghorwyd â'r GBS ar y cynnig 30 Hydref 2018, ac fe wnaethant argymell ei gymeradwyaeth i fwrw ati, yn amodol ar sylwadau ac amodau a geir yn natganiad y Prif Swyddog Cyllid (o adroddiad Cabinet ar 22 Medi). Cynhaliwyd GBS arbennig ddydd Mercher 9 Medi ac maent yn cefnogi'r cynllun ar yr amod bod Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl hefyd yn ei gefnogi.<br><br>Datblygiad Busnes ac Economaidd – Ymgynghorwyd â nhw drwy gydol y trafodaethau ac maent yn gwbl gefnogol o'r pryniant. Dyma'r safle allweddol sy'n ofynnol i gyflawni Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl.<br><br>Bwrdd Prosiect Marchnad y Frenhines – Mae cyfarfodydd bob mis gyda'r Bwrdd i oruchwylio a bwrw ati gyda datblygiad o'r safle. Mae aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth lefel uchel gan CSDd, ION (Partner Datblygu CSDd) a Llywodraeth Cymru. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |